# Cynllun Her Newid Hinsawdd Cyngor Bro Morgannwg

# 2021-2030

**Mae copi o'r Cynllun ar gael yn Saesneg.**

# Rhagair

Ym mis Gorffennaf 2019 ymunodd Cyngor Bro Morgannwg â Llywodraeth Cymru a chynghorau eraill ledled y DU i ddatgan 'argyfwng hinsawdd' byd-eang mewn ymateb i ganfyddiadau 'Adroddiad Arbennig ar Gynhesu Byd-eang o 1.5ºC' y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) (Hydref 2018). Ymrwymodd y Cyngor i:

- Leihau allyriadau carbon y Cyngor i sero net cyn targed Llywodraeth Cymru o 2030 a chefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Cyflawni Carbon Isel newydd Llywodraeth Cymru.
- Cyflwyno sylwadau yn ôl yr angen i Lywodraeth Cymru a'r DU, fel y bo'n briodol, i ddarparu'r pwerau, adnoddau a chymorth technegol mae eu hangen ar awdurdodau lleol yng Nghymru i'w helpu i gyflawni targed 2030 yn llwyddiannus.
- Parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid lleol gan gynnwys Cynghorwyr, trigolion, pobl ifanc, busnesau a phartïon eraill perthnasol i ddatblygu strategaeth yn unol â'r targed o allyriadau sero net erbyn 2030 ac edrych ar ffyrdd o sicrhau'r buddion lleol gorau posibl o ganlyniad i'r camau hyn mewn sectorau eraill megis cyflogaeth, iechyd, amaethyddiaeth, trafnidiaeth a'r economi.

Ers hynny, rydym wedi parhau i wneud newidiadau ym mhob rhan o'r sefydliad a chychwyn ar brosiectau uchelgeisiol i leihau ein hallyriadau carbon ac i anfon neges glir bod yn rhaid i bob un ohonom weithio gyda'n gilydd i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd a'u lliniaru. Mae gennym gyfle i newid a gwneud gwahaniaeth ac rydym yn dod â'r holl waith hwn ynghyd fel **Prosiect Sero.** Byddwn yn gweithio gyda'r gymuned a'n partneriaid i wneud y newidiadau angenrheidiol, gan ganolbwyntio ar ynni, gwastraff, bwyd, adeiladau, trafnidiaeth, defnydd tir a chaffael. Ein prif darged yw lleihau allyriadau carbon y Cyngor i sero net erbyn 2030 ond rydym hefyd am ddylanwadu ar ac annog eraill i leihau eu hallyriadau a bod yn rhan o **Brosiect Sero**.

Cafodd y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) ei sefydlu gan Sefydliad Meteorolegol y Byd (WMO) a Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig (UNEP) i ddarparu ffynhonnell wrthrychol o wybodaeth wyddonol am newid yn yr hinsawdd. Mae'r **IPCC** yn glir bod newid yn yr hinsawdd yn real a gweithgareddau dynol yw'r prif achos. **Prosiect Sero** yw ymateb Cyngor Bro Morgannwg i'r argyfwng hwn o ran y newid yn yr hinsawdd.

Yn 2019, datganodd y Cyngor argyfwng hinsawdd. Fodd bynnag, ers dechrau 2020 rydym wedi bod yn mynd i'r afael ag argyfwng arall gan ein bod wedi gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned i ymateb i bandemig Covid-19. Mae'r pandemig wedi newid ein bywydau i gyd, sut rydym yn gweithio, yn cymdeithasu, yn teithio ac yn siopa a bydd ei effeithiau'n aros gyda ni am gryn amser. Mae'r pandemig wedi arwain at her a chaledi sylweddol ac mae hefyd wedi dangos ein gallu i newid, i fod yn fwy ymatebol ac i fod yn fwy arloesol. Rhaid i ni adeiladu ar yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu a defnyddio hyn yn y ffordd rydym yn ymateb i'r problemau niferus a chymhleth sy'n deillio o'r newid yn yr hinsawdd.

Mae angen i ni feddwl am y tymor hir a chynllunio ar gyfer y dyfodol, ond mae angen i ni hefyd weithredu'n gyflym a dylanwadu ar eraill i weithredu'n awr.  Mae angen i ni gyfathrebu'n effeithiol i sicrhau newid ymddygiad yn y Cyngor ac yn y gymuned. Mae angen i ni ddeall y wyddoniaeth a gweithio fel tîm a deall sut mae ein gweithredoedd yn effeithio ar fywydau pobl eraill.

Mae'r ymgynghoriad rydym wedi'i gynnal fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun hwn wedi dangos bod cefnogaeth ar draws y gymuned dros ddull uchelgeisiol a chadarn o ymdrin â'r argyfwng hinsawdd. Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i roi sylwadau ar y cynllun ac sydd wedi mynegi parodrwydd i weithio gyda ni ac o fewn eu cymuned i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a diogelu ein hadnoddau naturiol.

Bydd ein gwaith i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn parhau i ddatblygu.  Nid oes gan y byd yr holl atebion eto ond rydym yn dysgu drwy'r amser am yr hyn y mae angen i ni roi'r gorau i'w wneud a'r hyn y mae angen i ni ddechrau ei wneud. Er gwaethaf yr arbenigedd proffesiynol sylweddol yn y Cyngor mae angen i ni weithio gydag eraill a dysgu oddi wrthynt a gwrando ar y gymuned i lunio **Prosiect Sero**. Mae'r ymgynghori a'r ymgysylltu ynghylch Prosiect Sero wedi amlygu'r cyfoeth o wybodaeth ac arloesedd ar draws ein cymunedau a brwdfrydedd ac egni i annog newid ymddygiad. Bydd rhai o'r newidiadau y mae angen i ni eu gwneud yn gofyn am fuddsoddiad a gall rhai fod yn amhoblogaidd, ond mae angen i ni ystyried holl gost yr hyn a wnawn a sut yr ydym yn gwneud hynny.

Drwy'r gwaith rydym eisoes yn ymgymryd ag ef, a'r ymgysylltu hyd yma, rydym wedi nodi nifer o heriau a chamau i gyflawni **Prosiect Sero**. Mae'r heriau hyn wedi'u llunio o amgylch yr angen i:

- **Ddangos arweinyddiaeth gref** - rhaid i'r Cyngor arwain drwy esiampl.
- **Cyflawni ein cyfrifoldeb i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol** – dyma'r meysydd lle rydym yn helpu i lywio gweithgareddau pobl eraill drwy ein polisïau a'n gwasanaethau a lle gallwn gael dylanwad sylweddol ar weithredoedd pobl eraill.
- **Gwneud gwahaniaeth nawr** – mae hyn yn cyfeirio at sut mae'r Cyngor yn gweithredu fel sefydliad, cyflogwr, meddiannwr adeiladau, tirfeddiannwr a landlord.

Ein hymrwymiad i chi yw newid ein ffyrdd, ond er mwyn llwyddo bydd hyn yn gofyn am newidiadau gan ein partneriaid, y gymuned fusnes a'n trigolion hefyd. Rwy'n fwy hyderus nawr nag erioed bod parodrwydd ar draws y Fro i gydweithio a gwneud yr hyn sy'n angenrheidiol i ddiogelu ein dyfodol ni a dyfodol y cenedlaethau i ddod. Gyda'n gilydd gallwn wneud y Fro yn fwy gwydn, yn wyrddach ac yn iachach i ni i gyd.

Neil Moore

**Y Cynghorydd Neil Moore**
**Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg**

# Ein Hymrwymiad i Newid

Gweledigaeth y Cyngor yw ***'Cymunedau Cryf gyda Dyfodol Disglair'*** ac mae ein gwaith i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn rhan o'r gwaith o wireddu'r weledigaeth honno. Mae ystod eang o dystiolaeth sy'n cefnogi'r angen am newid a'r angen dybryd i ymateb i newid yn yr hinsawdd. Mae Atodiad A yn manylu ar rywfaint o'r dystiolaeth ar lefel fyd-eang, y DU, Cymru ac yn lleol a'r rhesymau pam mae angen i ni wneud newidiadau.

Pan ddatganodd y Cyngor argyfwng hinsawdd yn 2019 roedd gwaith sylweddol eisoes yn cael ei wneud ac mae'r gwaith hwn wedi parhau i fynd rhagddo a gwneud gwahaniaeth. Un o'r camau allweddol rydym yn ei gymryd yn awr yw dod â'r gwaith hwn ynghyd mewn dull mwy cydgysylltiedig a chydlynol o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae **Prosiect Sero** yn ein galluogi i fyfyrio ar yr hyn sydd eisoes ar waith, ym mha faes y mae angen i ni adeiladu momentwm ac ar beth y mae angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion fwyaf.

## Ein Gwerthoedd

Mae gan y Cyngor set o bedwar gwerth a bydd y rhain yn rhan annatod o'n gwaith ar newid yn yr hinsawdd. Yng nghyd-destun ein gwaith ar newid yn yr hinsawdd, mae'r gwerthoedd hyn yn golygu'r canlynol;

**Uchelgeisiol** - trawsnewid sut rydym yn gweithio



**Agored** - croesawu syniadau newydd a bod yn barod i wrando, dysgu a newid



**Gyda'n gilydd** - gweithio gyda'n partneriaid a'r gymuned i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol




**Balch** - ymfalchïo yn yr hyn rydym eisoes wedi'i gyflawni a gweithio tuag at etifeddiaeth i'r Fro y gallwn i gyd fod yn falch ohoni



## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae **Prosiect Sero** hefyd yn cyfrannu at yr Amcanion Lles Cenedlaethol fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a bydd y pum ffordd o weithio yn amlwg ym mhopeth a wnawn.







## Dyfodol Cymru – Cynllun Cenedlaethol 2040

Cyhoeddwyd Dyfodol Cymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2021 ac mae'n fframwaith ar gyfer cynllunio'r newid a'r datblygiad y bydd eu hangen ar Gymru dros y ddau ddegawd nesaf. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer ymdrin â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, sicrhau datgarboneiddio a gwydnwch yn wyneb yr argyfwng hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau.  Bydd Dyfodol Cymru yn dylanwadu ar feysydd arwyddocaol gweithgarwch y Cyngor.




## Y Cynllun Corfforaethol

Mae Amcanion Lles y Cyngor yn darparu'r fframwaith ar gyfer Cynllun Corfforaethol pum mlynedd y Cyngor 2020-2025.  Manylir ar yr amcanion hyn isod ac mae pob un ohonynt yn berthnasol i'n gwaith ar newid yn yr hinsawdd a'r angen i ystyried effaith popeth a wnawn ar ein hadnoddau naturiol:

- Gweithio gyda, a thros ein cymunedau

- Cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy
- Cefnogi pobl gartref ac yn eu cymuned
- Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd




## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro

Ym mis Chwefror 2020 llofnododd y Cyngor Siarter Argyfwng Hinsawdd gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro ac mae hwn yn nodi ymrwymiad cyffredin y BGC i arwain drwy esiampl, cymryd camau cadarnhaol a lleihau ein heffaith. Gyda'n gilydd byddwn yn:

- Lleihau ein hallyriadau i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd gan addasu i'w effeithiau
- Bod yn fwy caredig i'n hamgylchedd
- Bod yn iachach
- Dod yn sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030

Mae **Prosiect Sero** yn disgrifio sut y bydd y Cyngor yn gweithio i gyflawni ein hymrwymiadau yn siarter y BGC ac yn adlewyrchu pwysigrwydd gweithio gyda'r gymuned ac ar draws pob sector i ymateb i'r heriau niferus sy'n ein hwynebu.

## Yr hyn yr ydym eisoes yn ei wneud

Mae rhywfaint o'r gwaith y mae'r Cyngor eisoes yn ei ddatblygu ac a fydd yn rhan o **Brosiect Sero** wedi'i nodi isod ac mae'n dangos ystod y gweithgarwch ar draws ein gwasanaethau.

### Cynllunio

- Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn darparu'r fframwaith i'r **polisi cynllunio lleol** ar gyfer sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae canllawiau penodol wedi cael eu llunio hefyd sy'n ceisio gwelliannau ar Fioamrywiaeth, Coed a Datblygu, Cynlluniau Teithio ac Ynni Adnewyddadwy.

- Mae targed y CDLl i roi caniatâd cynllunio digonol i fodloni 10.6% (56.68 GWh) o'r galw rhagamcanol am drydan drwy ffynonellau **ynni adnewyddadwy** erbyn 2020 wedi'i gyrraedd.
- Ers mis Gorffennaf 2018 rydym wedi sicrhau cymhareb ailblannu o 2:1 wrth gael gwared ar goed â gorchmynion cadw neu goed mewn ardal gadwraeth yn unol â **Chanllawiau Cynllunio Atodol Coed, Coetiroedd, Gwrychoedd a Datblygiadau.**

## Ynni

- Mae'r Cyngor yn prynu **100% o'i drydan o ffynonellau adnewyddadwy** ac mae wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer nifer o ffermydd solar.
- Rydym wedi ymgymryd â thros **100 o brosiectau arbed ynni** ar draws adeiladau'r Cyngor gan gynnwys newid hen oleuadau aneffeithlon i oleuadau LED a chyflwyno gwell rheolaethau ynni.
- Rydym wedi dechrau newid ein systemau gwresogi o nwy i drydan drwy osod **Pwmp Gwres o'r Ddaear** yn Nhŷ Cadoxton yn y Barri a **Phwmp Gwres Ffynhonnell Aer** yn yr Ystafell Beiriannau yn y Barri (Ystafell yr Injan). Mae'r safleoedd hyn wedi gweld gwelliannau sylweddol yn y defnydd o ynni ac mae cynlluniau ar y gweill i osod rhagor ohonynt.
- Rydym wedi gosod paneli Solar ar 14 o adeiladau i roi capasiti cyfunol o 480 KW. Mae maint pob system yn briodol i gyfateb i'r galw yn yr adeiladau y mae wedi'i gosod ynddynt.
- Mae 68% o **oleuadau stryd** y Cyngor wedi'i newid i oleuadau LED ac mae cynlluniau ar y gweill i gynyddu hyn i 92% erbyn haf 2021.

## Gwastraff

- Roedd dros 72% (72.3%) o **wastraff cartrefi** a gasglwyd gan y Cyngor wedi'i baratoi i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu yn ystod hanner cyntaf 2020/21. Mae hyn yn uwch na'r targed statudol o 64% ar gyfer 2020/21.
- Mae pob tendr ar gyfer contractau'r Cyngor bellach yn nodi'r defnydd llai o **blastigau untro** ac mae pob tenantiaeth a chonsesiynau bwyd newydd a roddir yn gwahardd defnyddio plastigau untro.

## Bwyd

- Rydym wedi lleihau **teithiau bwyd** drwy newid ein cyflenwr llaeth i fferm laeth leol ar gyrion Pen-y-bont ar Ogwr. Rydym wedi mynd yn syth at y cynhyrchydd llaeth sydd bellach yn cyflenwi ein holl ysgolion yn hytrach na defnyddio cwmni i gyflenwi ar ran ffermwyr.
- Mae'r Big Fresh Catering Company sy'n eiddo i'r Cyngor yn gwneud ymdrech ymwybodol i leihau neu ddileu **plastigau untro**. Mae'n gweithio gyda chyflenwyr i ddod o hyd i gynhyrchion amgen ac, er enghraifft, mae wedi newid cynhwysydd y cynnyrch hufen iâ ym mhob un o'n hysgolion o diwb polystyren i diwb cardbord ailgylchadwy, sydd wedi helpu i leihau gwastraff yn ein ceginau.
- Mae'r Big Fresh Catering Company yn gweithio gyda thîm ysgolion yr 21ain ganrif i leihau faint o **garbon a gynhyrchir** o'n hoffer cegin.

## Trafnidiaeth

- Roedd gan y Cyngor £3.44miliwn yn ei gyfrif A106 ar 31 Mawrth 2020 wedi'i neilltuo ar gyfer **trafnidiaeth gynaliadwy** h.y. seilwaith cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, ac mae cynlluniau'n cael eu trefnu mewn nifer o ardaloedd gan gynnwys Dinas Powys, y Wig a'r Rhws.
- Rhaid i bob cais cynllunio perthnasol gyflwyno cynllun teithio i hyrwyddo dewisiadau **teithio cynaliadwy** ac atal defnydd diangen o geir, ac ers mis Mawrth 2019 rhaid i o leiaf 10% o fannau parcio ceir ar ddatblygiadau amhreswyl gynnwys seilwaith pwyntiau gwefru cerbydau trydan.
- Mae **Cynlluniau Teithio Llesol** wedi'u cyflwyno i wella cyfleoedd ar gyfer cerdded a beicio mewn nifer o ardaloedd gan gynnwys y Bont-faen, Llanilltud Fawr, Penarth Heights, Heol Larnog/Cosmeston, Sully Road/Ysgol San Joseff a Ffordd y De/Hays Road/Sully Moors Road.
- Lansiwyd y cynllun **Nextbike** ym Mhenarth yn 2020 ac mae'r beiciau wedi'u llogi dros 1,400 o weithiau ar draws 5 gorsaf docio rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Ionawr 2021. Bydd gorsafoedd docio yn cael eu gosod yn Cosmeston a Sili cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyda chynlluniau ar gyfer 2 orsaf yn Ninas Powys yn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Rydym yn gweithio gyda'n hysgolion i **annog beicio.** Darparwyd 6 beic cydbwyso i bob ysgol gynradd yn y Fro ac mae cynlluniau ar y gweill i ddarparu 48 o feiciau ar gyfer Blynyddoedd 5 a 6 i gwblhau hyfforddiant hyfedredd beicio mewn ysgolion penodol mewn ardaloedd difreintiedig. Darparwyd 33 o sgwteri i 26 o ysgolion, darparwyd 3 pod beiciau i ysgolion a gosodwyd llochesi beiciau mewn 4 ysgol yn 2020/21.

## Tai Cyngor

- Mae gwaith a wnaed i stoc dai'r Cyngor drwy SATC wedi helpu i **arbed ynni a lleihau tlodi tanwydd**. Rydym wedi codi'r sgôr SAP (sgôr perfformiad ynni) cyfartalog o'r 40au isel i 65 ac mae'r gwelliannau'n cynnwys ffenestri a drysau modern, toeau newydd, insiwleiddio a systemau gwresogi modern.
- Rydym yn treialu'r **Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio** yn ein tai cyngor gan ddefnyddio cyllid grant Llywodraeth Cymru i ymestyn gwybodaeth a gwella gallu contractwyr lleol o ran gwasanaethau gwresogi gwyrdd, i ddatgarboneiddio'r farchnad gwresogi domestig a darparu sgôr targed TPY o A i gartrefi cyngor cynaliadwy.

## Ysgolion

- Mae'r Cyngor wedi cynllunio **adeilad ysgol gynradd carbon sero-net** sy'n cael ei gyflwyno fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Ar ôl ei gwblhau, Ysgol Gynradd Llancarfan fydd un o ysgolion cynradd (gweithredol) carbon sero-net cyntaf yng Nghymru.
- Mae carbon hefyd wedi'i leihau'n sylweddol yn ystod y **broses adeiladu** gyda 99% o wastraff adeiladu yn cael ei ailgylchu neu ynni'n cael ei adennill i leihau allyriadau wrth echdynnu deunydd crai ac i osgoi defnyddio safleoedd tirlenwi.
- Dyfarnodd Llywodraeth Cymru £1,050,000 yn ychwanegol i'r Cyngor i gefnogi mesurau **datgarboneiddio** fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

- Rydym wedi gosod paneli ffotofoltäig (PV) ar nifer o safleoedd ysgolion i gynyddu'r defnydd o **ynni adnewyddadwy** ac rydym hefyd wedi defnyddio cyllid Salix i weithredu ystod o fesurau **arbed ynni** ar draws ysgolion yn y Fro.
- Rydym hefyd wedi gosod gorsafoedd **gwefru cerbydau trydan** ar safleoedd ysgol penodol.
- Bydd dros **1,200 o goed** Coed Cadw yn cael eu plannu fel rhan o'n prosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif a fydd yn helpu i greu ardaloedd bywyd gwyllt a hefyd yn cyfrannu at wella ansawdd aer o amgylch ysgolion.

### Ein Tir

- Mae ein holl **barciau gwledig a'r Arfordir Treftadaeth** yn defnyddio compost di-fawn yn unig ar gyfer pob prosiect garddio. Mae'r ddau barc gwledig wedi creu ardaloedd compostio mewnol ac yn cynhyrchu eu compost eu hunain i'w ddefnyddio ar y safle. Rydym hefyd wedi lleihau ein defnydd o blaleiddiad a chwynladdwr ar ein tir.
- Yn 2019/20, cafodd 216,905m2 o **dir parciau, mannau agored a phriffyrdd** eu hau gyda hadau blodau gwyllt neu eu cynnal fel ardal naturiol. Defnyddiwyd cyfraniadau Adran 106 hefyd i wella mannau agored cyhoeddus drwy blannu blodau gwyllt, bylbiau a choed gan gynnwys gwario £10 mil ar gynllun plannu coed cynhwysfawr ym Mhenarth yn 2020/21.

Mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud nifer o newidiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf i leihau'r effaith y mae'r sefydliad yn ei chael ar yr amgylchedd ac i ddangos arweiniad cryf i staff, partneriaid a'r gymuned leol. Rydym wedi gweithredu prosiect gofod i resymoli faint o ofod swyddfa sydd ei angen arnom ac rydym wedi defnyddio technoleg i gefnogi gweithio mwy ystwyth a hyblyg, sydd o fudd i gwsmeriaid, i'n gweithwyr a'r amgylchedd. Rydym wedi cyfleu negeseuon clir i staff am leihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu yn y gweithle ac wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'n hadeiladau er mwyn arbed ynni. Rydym hefyd wedi llofnodi Siarter Teithio Llesol Staff BGC y Fro.

Mae negeseuon rheolaidd am newidiadau sy'n cael eu gwneud a chydnabod cyfraniad gwahanol dimau ac aelodau unigol o staff wedi helpu i greu diwylliant lle mae staff yn teimlo bod eu lles yn cael ei werthfawrogi a bod dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng ein lles a'n hamgylchedd. Anogir staff i ddod o hyd i syniadau newydd i helpu i drawsnewid sut mae'r Cyngor yn gweithio ac mae eu hymroddiad, eu harloesedd a'u harbenigedd yn rhan bwysig o **Brosiect Sero.**

## Ein Rhaglen Ar gyfer Newid


Mae **Prosiect Sero** yn dangos y cyfeiriad rydym am ei ddilyn a sut rydym am newid. Mae'n dod â llawer iawn o waith, syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio at ei gilydd yn ogystal â pharhau â'r gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud; er enghraifft, gwella adeiladau ein hysgolion, gweithio gyda datblygwyr a'r gymuned ac annog newid ymddygiad.

Mae'r Cyngor yn sefydliad amrywiol a chymhleth ac mae'r cyfleoedd i newid yn sylweddol. Un o'n tasgau yw datblygu ein dealltwriaeth o ba newidiadau all gael yr effaith fwyaf, lle dylem dargedu ein hadnoddau i wneud y gwahaniaeth mwyaf, tra'n cydnabod bod angen cyfuniad o newidiadau bach a thrawsnewid radical ac uchelgeisiol arnom.

Rydym wedi datgan argyfwng ac ni fydd parhau â'r arferion presennol yn cyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen arnom. Rydym eisoes yn gwneud llawer iawn, ond mae angen i ni wneud mwy. Mae angen i'n hymateb fod yn ddeinamig ac mae angen iddo ddatblygu. Fel sefydliad ac fel cymuned mae angen i ni newid, mae angen i ni herio, ac mae angen i ni hefyd ganolbwyntio ar beth yw'r blaenoriaethau i ni fel sefydliad ac i'r Fro. Dyma'r **Prosiect Sero**.

Drwy **Brosiect Sero** rydym wedi nodi deunaw her sy'n adlewyrchu'r hyn y credwn sydd angen ei newid fel rhan o ymateb effeithiol i'r argyfwng hinsawdd. Bydd gwaith mewn rhai meysydd yn fwy datblygedig nag mewn meysydd eraill a bydd rhai gweithgareddau'n cymryd mwy o amser i'w cyflawni nag eraill, ond gyda'i gilydd maent yn ffurfio rhaglen waith uchelgeisiol yr ydym wedi ymrwymo i'w chyflawni. Rydym wedi ymrwymo i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 a thrwy ymateb i'r heriau hyn ac ymgorffori gwaith ar newid yn yr hinsawdd ym mhob rhan o'r Cyngor gallwn gyrraedd ein targed a chyflawni dyfodol mwy disglair i'r Fro. Ceir rhagor o fanylion am ein Heriau a'r newidiadau y byddwn yn eu gwneud isod ac maent wedi'u llunio o amgylch yr angen i:

- **Ddangos arweinyddiaeth gref** - sy'n rhan annatod o'r holl gamau a amlinellir isod. Rhaid i'r Cyngor arwain drwy esiampl.
- **Cyflawni ein cyfrifoldeb i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol** – dyma'r meysydd lle rydym yn helpu i lywio gweithgareddau pobl eraill drwy ein polisïau a'n gwasanaethau a lle gallwn gael dylanwad sylweddol ar weithredoedd pobl eraill.
- **Gwneud gwahaniaeth nawr** – mae hyn yn cyfeirio at sut mae'r Cyngor yn gweithredu fel sefydliad, cyflogwr, meddiannwr adeiladau, tirfeddiannwr a landlord.



| **Dangos arweinyddiaeth gref**<br><br>Byddwn yn dangos arweinyddiaeth gref wrth i ni ymateb i'r her o ymgysylltu'n effeithiol â'r gymuned a'n partneriaid ynglŷn â sut y gallwn gydweithio. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r materion a'r gwaith rydym yn ei wneud ac yn datblygu gwell dealltwriaeth o ble y gallwn gael yr effaith fwyaf a sut y gallwn ddylanwadu ar eraill i weithio gyda ni a bod yn rhan o raglen newid uchelgeisiol. | |
|---|---|
| **Ein heriau yw:** | **Y camau a gymerwn:** |
| **Ymgysylltu** â'r gymuned a gwrando ar flaenoriaethau aelodau'r gymuned ar gyfer mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a diogelu ein hadnoddau naturiol, gan eu cefnogi a'u galluogi i wneud gwahaniaeth a llunio ein huchelgeisiau ar y cyd. | • Adeiladu momentwm o ran y Sgwrs Gymunedol am y Newid yn yr Hinsawdd fel ymgyrch uchelgeisiol dros newid.<br>• Cynnwys grwpiau rhanddeiliaid a datblygu grŵp cenhadon gwyrdd i lunio ein cynlluniau ac annog newid ymddygiad.<br>• Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli a phrosiectau cymunedol. |
| Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth trwy hyrwyddo **negeseuon cyson a chlir** i'n staff, ein cymunedau a'n partneriaid am y gwahaniaeth y gallwn ei wneud ac yr ydym yn ei wneud trwy newid ein hymddygiad a thrawsnewid ein gwasanaethau. | • Datblygu rhaglen wedi'i chydlynu o gyfathrebu mewnol ac allanol.<br>• Adrodd am y cynnydd sy'n cael ei wneud ac effaith y newidiadau a wnawn.<br>• Tynnu sylw at brosiectau cymunedol ar draws y Fro.<br>• Cyfeirio pobl at wybodaeth a gwasanaethau yn eu cymuned. |
| Datblygu ein **sylfaen dystiolaeth a'n mewnwelediad** i gael dealltwriaeth lawnach o effaith a 'chostau' posibl gweithgareddau. | • Cyflwyno arbenigedd allanol ac ymchwilio i arfer gorau sefydliadau eraill gan gynnwys partneriaid BGC.<br>• Darparu hyfforddiant i staff ac Aelodau.<br>• Cyfrifo a deall ôl troed carbon y Cyngor a chyhoeddi data allweddol arall sy'n manylu ar ein perfformiad a'n cynnydd.<br>• Gosod targedau ystyrlon tuag at leihau ein heffaith negyddol ar yr amgylchedd. |
| Gwneud y gorau o'n rôl fel arweinwyr cymunedol i weithio gyda a **dylanwadu a galluogi** eraill i sicrhau'r newidiadau sydd eu | • Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a dylanwadu ar newid polisi a deddfwriaeth. |

| | |
|---|---|
| hangen i fynd i'r afael â’r newid yn yr hinsawdd. | • Gweithio o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i sicrhau newid ar draws y rhanbarth<br>• Gweithio gyda phartneriaid BGC i gyflawni'r ymrwymiadau yn siarter y BGC.<br>• Gweithio gyda busnesau a diwydiannau, Cynghorau Tref a Chymuned, grwpiau cymunedol a'r Trydydd Sector i wneud gwahaniaeth yn lleol. |
| **Cyflawni ein cyfrifoldeb i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol**<br><br>Wrth ateb yr heriau hyn, byddwn yn annog newid ymddygiad ac yn addasu'r seilwaith angenrheidiol i ateb heriau newid yn yr hinsawdd nawr ac yn y dyfodol. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar drafnidiaeth, bwyd, natur, ynni, gwastraff, defnyddio dŵr a llifogydd. Wrth ateb yr heriau, byddwn yn cefnogi economi werdd a phwysigrwydd cydbwyso twf economaidd â'r angen i leihau'r effaith negyddol ar yr amgylchedd a'n hadnoddau naturiol. Byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith i wella'r seilwaith gwyrdd yn y Fro ac i hyrwyddo systemau bwyd cynaliadwy. | |
| **Ein heriau yw:** | **Y camau a gymerwn:** |
| Diogelu a gwella mannau gwyrdd a glas[1], bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau a gwella dealltwriaeth o bwysigrwydd ein hamgylchedd naturiol. | • Datblygu a gweithredu Cynllun Seilwaith Gwyrdd gan gynnwys cynnal arolwg o'r holl goed yn y Fro ac asesu’r seilwaith presennol.<br>• Gweithredu'r blaengynllun bioamrywiaeth a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd natur a bywyd gwyllt<br>• Plannu coed newydd yn lle’r rhai a gollwyd a hybu plannu coed ar draws y Fro gan gynnwys gweithio gyda pherchnogion darnau mawr o dir.<br>• Creu a gwella mannau gwyrdd a glas presennol trwy gynlluniau a arweinir gan y Cyngor, cyllid a.106 a chynlluniau trafnidiaeth newydd.<br>• Gweithio gyda chymunedau lleol i gynyddu nifer y rhandiroedd a gerddi cymunedol.<br>• Llunio Canllawiau Draenio Trefol Cynaliadwy |

[1] Mae mannau gwyrdd yn cyfeirio at ardaloedd fel coedwigoedd, dolydd a pharciau ac mae mannau glas yn cynnwys afonydd, cyrsiau dŵr a’r môr

| | |
|---|---|
| Sicrhau bod ein **polisïau cynllunio** a **gweithgareddau adfywio** yn cefnogi gwaith i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd a'u lliniaru, a lleihau effaith negyddol ar yr amgylchedd. | • Adolygu/llunio Canllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r gwaith o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.<br>• Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddiwallu angen ein cymunedau am dai, cyflogaeth a gwasanaethau trwy, lle y bo'n bosibl, ailddatblygu tir llwyd yn gynaliadwy mewn lleoliadau priodol, trwy'r Cynllun Datblygu Lleol presennol a'r adolygiad o'r cynllun sy'n dechrau ym mis Mehefin 2021<br>• Gweithio gyda datblygwyr i ddatblygu adeiladau di-garbon.<br>• Creu adeiladau sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon drwy bolisi cynllunio.<br>• Ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad newydd a sylweddol weithredu system draenio cynaliadwy briodol (SDCau) i reoli dŵr wyneb, swm dŵr a bioamrywiaeth yn briodol.<br>• Defnyddio cytundebau Adran 106 i fuddsoddi mewn mesurau trafnidiaeth amgylcheddol a chynaliadwy.<br>• Gweithio gyda Dinas-ranbarth Caerdydd i archwilio cyfleoedd i hyrwyddo a datblygu canolfannau twf glân gan fanteisio ar y Barri fel doc ac archwilio a manteisio i'r eithaf ar botensial ynni adnewyddadwy. |
| Cyflawni newid moddol i **ffurfiau mwy cynaliadwy ar drafnidiaeth** gan gynyddu teithiau ar droed, beic a chludiant llai llygredig. | • Gweithio o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i wella dewisiadau trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer y rhanbarth a gweithredu mannau gwefru tacsis yn ogystal â rhwydwaith o bwyntiau gwefru i fysus ac mewn meysydd parcio yn y dyfodol.<br>• Gweithio gyda datblygwyr i sicrhau bod datblygiadau busnes, hamdden a thai newydd yn cael eu cynllunio'n briodol ar gyfer anghenion trafnidiaeth ac yn annog newid ymddygiad.<br>• Cynyddu teithio llesol (cerdded a beicio) a gwella'r seilwaith trafnidiaeth yn y Fro trwy |

| | |
|---|---|
| | ddefnyddio grantiau Llywodraeth Cymru i wella mynediad, diogelwch a chydlynu'r rhwydwaith teithio llesol.<br>• Ehangu cynllun llogi e-feiciau Nextbike i rannau eraill o'r Fro yn dilyn gweithredu'r cynllun yn ardal Penarth.<br>• Gweithio gyda phob ysgol i sicrhau bod ganddynt gynlluniau teithio gwyrdd a chyfleusterau beicio digonol.<br>• Sefydlu rhwydwaith o Bwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan a chefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo cerbydau tanwydd amgen. |
| Gweithio gyda phartneriaid a busnesau i ddatblygu a gweithredu **Strategaeth Twf Economaidd** sy'n cefnogi busnesau lleol ac yn ateb her y newid yn yr hinsawdd a'n huchelgais ar gyfer adferiad gwyrdd ar ôl pandemig y coronafeirws. | • Datblygu a gweithredu Strategaeth Twf Economaidd gynaliadwy a gwyrdd.<br>• Helpu i wella mynediad digidol a llythrennedd yn y gymuned.<br>• Cefnogi cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig ag economi werdd a gweithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i archwilio a manteisio ar botensial twf swyddi gwyrdd mewn meysydd fel ynni adnewyddadwy ac ynni yn ogystal â helpu busnesau sy'n bodoli eisoes gyda'r cyfnod newid.<br>• Gweithio gyda busnesau, colegau a phrifysgolion i nodi cyfleoedd a hyrwyddo technoleg newydd. |
| Cefnogi a hyrwyddo mwy o **systemau bwyd lleol cynaliadwy** a fydd yn arwain at lai o deithiau bwyd, llai o wastraff a mwy o ymwybyddiaeth am effaith ein dewisiadau bwyd ar yr amgylchedd. | • Gweithio trwy'r BGC a Bwyd y Fro i weithredu'r Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda ac i hybu prynu cynnyrch lleol a siopa'n lleol.<br>• Gweithio gyda Bwyd y Fro i ennill statws Dinas Bwyd Cynaliadwy a hyrwyddo busnesau sydd ag arferion cynaliadwy<br>• Bydd y Big Fresh Catering Company, sy'n gweini bron 2 filiwn o brydau bwyd y flwyddyn, yn cymryd camau i leihau ei effaith ar yr amgylchedd ymhellach. |

| | |
|---|---|
| | • Adolygu trefniadau caffael i gefnogi llai o deithiau bwyd a llai o ddeunydd pacio a gwastraff.<br>• Gweithio gyda grwpiau cymunedol a thrwy'r Cynllun Seilwaith Gwyrdd i annog pobl i dyfu eu ffrwythau a'u llysiau eu hunain.<br>• Hyrwyddo a hwyluso prosesau ailgylchu gwastraff bwyd i breswylwyr, busnesau ac ysgolion. |
| Lleihau **gwastraff** a darparu'r cyfleusterau, y gwasanaethau a'r ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth angenrheidiol i greu economi fwy cylchol gyda phwyslais cryf ar ailddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu. | • Mabwysiadu Strategaeth Rheoli Gwastraff newydd gyda phwyslais cryf ar weithio gyda'r gymuned.<br>• Datblygu ymgyrchoedd i newid ymddygiad e.e. lleihau plastigau a deunydd pecynnu untro a chynyddu ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio.<br>• Hyrwyddo a chyfeirio at brosiectau a gwasanaethau cymunedol sy'n annog ailddefnyddio ac atgyweirio a lleihau gwastraff.<br>• Sefydlu Siop Ailddefnyddio i dderbyn eitemau, eu hatgyweirio yn ôl yr angen a'u gwerthu ymlaen.<br>• Cyflwyno trefniadau ailgylchu ar draws y Fro a gweithio gydag ysgolion a busnesau i leihau gwastraff a gwella cyfraddau ailgylchu.<br>• Adeiladu Canolfan Adfer Adnoddau newydd ar safle Gorllewin y Fro.<br>• Ymrwymo i osgoi allforio unrhyw wastraff gweddilliol neu ddeunyddiau ailgylchu o'r DU. |
| Gweithio gyda phartneriaid i leihau'r risg o **lifogydd**, rheoli ein **harfordir** ac annog pawb i gymryd agwedd fwy cyfrifol at **ddefnyddio** dŵr. | • Gweithredu Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd a Chynllun Rheoli Traethlin.<br>• Sicrhau bod mesurau Draenio Trefol Cynaliadwy yn cael eu cyflawni.<br>• Hyrwyddo mesurau arbed dŵr yn ein gwaith a'n hadeiladau. |

| | |
|---|---|
| | • Annog ailddefnyddio dŵr glaw lle bo hynny'n bosibl. |
| Lleihau faint o **ynni** rydym i gyd yn ei ddefnyddio ac arwain drwy esiampl drwy ddefnyddio ynni o ffynonellau glân ac adnewyddadwy a gweithio ar draws pob sector i ddod â thechnoleg, arloesedd a buddsoddiad newydd i'r Fro. | • Datblygu a gweithredu Cynllun Ynni Ardal Leol a chyfrannu at waith Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.<br>• Gweithio gyda datblygwyr a busnesau i symud i ffwrdd o danwyddau ffosil ac archwilio cyfleoedd i fuddsoddi mewn cyflenwadau ynni amgen e.e. ffermydd solar.<br>• Cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol a datblygu rhwydweithiau system gwresogi ardal.<br>• Darparu gwybodaeth am fod yn fwy ynni-effeithlon yn y cartref gan gynnwys codi ymwybyddiaeth am grantiau a chynlluniau ar gyfer perchnogion tai a thenantiaid. |
| **Gwneud Gwahaniaeth**<br><br>Mae'r heriau hyn yn canolbwyntio ar sut mae'r Cyngor fel sefydliad yn darparu ei wasanaethau ac yn rheoli ei asedau. Mae'r gweithgareddau arfaethedig yn ymwneud â'n harferion caffael, ysgolion a thai cyngor, sut rydym yn rheoli ein tir a'n hasedau, sut mae staff yn teithio, a buddsoddi mewn technoleg. | |
| **Ein heriau yw:** | **Mae'r camau'n cynnwys:** |
| Adolygu ein polisïau ac arferion **Rheoli Contractau** a **Chaffael** i sicrhau eu bod yn cefnogi ein huchelgais i leihau allyriadau gwastraff a charbon. | • Adolygu'r polisi a strategaeth caffael a hyfforddi staff ar gaffael mwy cynaliadwy er mwyn lleihau defnydd o ynni ac annog economi gylchol.<br>• Archwilio cymalau cymdeithasol ac amgylcheddol mewn contractau sy'n rhoi mwy o ffocws ar gadwyni cyflenwi a busnesau lleol, gydag ymrwymiad i gefnogi'r economi sylfaenol. |
| Buddsoddi yn ein stoc **dai** i'w gwneud yn fwy effeithlon o ran ynni a darparu tai Cyngor newydd sydd bron yn gyfan gwbl yn ddi-garbon, neu o leiaf yn gartrefi Cyngor newydd â sgôr A. | • Darparu tai Cyngor newydd sydd bron yn gyfan gwbl ddi-garbon, neu o leiaf yn gartrefi Cyngor newydd â sgôr A.<br>• Gwella effeithlonrwydd ynni stoc dai'r Cyngor a defnyddio Rhaglenni Ôl-osod er mwyn Optimeiddio sy'n cynnwys Dulliau |

| | |
|---|---|
| | Modern o Adeiladu a gweithgynhyrchu oddi ar y safle i gyrraedd targedau lleihau carbon. |
| Adeiladu **ysgolion di-garbon** newydd a gwella ein hadeiladau ysgol presennol er mwyn sicrhau eu bod yn effeithlon o ran ynni a chreu amgylcheddau dysgu sy'n addas ar gyfer y dyfodol. | • Buddsoddi mewn mesurau lleihau carbon ar draws yr ystâd addysg.<br>• Dylunio ysgolion newydd i fodloni safon Rhagorol BREEAM, gan adeiladu adeiladau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, gwella cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt, a lleihau cost carbon gwaith adeiladu.<br>• Monitro a rheoli ôl troed carbon yn ystod y cam adeiladu ac ymchwilio i opsiynau i fynd i'r afael â charbon ymgorfforedig drwy ddeunyddiau naturiol a dulliau adeiladu modern.<br>• Mabwysiadu dull ffabrig yn gyntaf i gyflawni perfformiad thermol uchel a gosod paneli ffotofoltäig a/neu bympiau gwres ffynhonnell aer.<br>• Gwella bioamrywiaeth ar dir ysgolion fel ffordd o ddatgarboneiddio a mapio dalfeydd carbon naturiol.<br>• Canolbwyntio ar ddulliau o leihau ymhellach faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio'n fewnol; e.e. lleihau arlwyo, monitro defnydd cymunedol. |
| **Rheoli a defnyddio ein tir, adeiladau ac asedau eraill** wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, rhesymoli'r hyn sydd ei angen arnom a gwella cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni. | • Adolygu'r Strategaeth Rheoli Asedau.<br>• Datblygu'r Prosiect Gofod i foderneiddio a rhesymoli adeiladau'r Cyngor gan gynnwys creu mwy o fannau gwyrdd.<br>• Buddsoddi mewn a gweithredu rhaglen o brosiectau arbed ynni i leihau'r defnydd o ynni ar draws ein hadeiladau fel rhan o'r cynllun rheoli carbon.<br>• Manteisio i'r eithaf ar botensial tir ac asedau sy'n eiddo i'r Cyngor wrth gynhyrchu ynni adnewyddadwy ac archwilio ffyrdd y gallai hyn fod o fudd i'r gymuned leol. |

| | |
|---|---|
| | • Annog lesddeiliaid i fod yn fwy cynaliadwy yn y ffordd y maent yn defnyddio eiddo a brydlesir gan y Cyngor.<br>• Gweithredu cynlluniau i drosi mwy o oleuadau stryd a dad-oleuo bolardiau. |
| Lleihau nifer y **siwrneiau car** y mae staff yn eu gwneud a chynyddu nifer y **cerbydau trydan/carbon isel** sydd yn fflyd gerbydau'r Cyngor. | • Datblygu strategaeth cerbydau trydan/tanwydd amgen.<br>• Hyrwyddo a chymell staff i deithio mewn dulliau mwy cynaliadwy, gan gynnwys aelodaeth gorfforaethol ar gyfer Nextbike, cynllun rhannu beiciau, ffioedd gostyngedig i staff ar wasanaethau bysus lleol a gwasanaethau rheilffordd Trafnidiaeth Cymru, diwrnodau dim parcio ceir i staff a chynllun beicio i'r gwaith.<br>• Datblygu cyfleusterau hyb i staff weithio ohonynt er mwyn lleihau'r angen i deithio. |
| Buddsoddi mewn **technoleg** i gefnogi gweithio gartref a gwasanaethau ar-lein gan leihau'r angen am deithio a gofod swyddfa. | • Defnyddio technolegau ac arferion digidol newydd i leihau'r defnydd o drydan a lleihau allyriadau carbon.<br>• Gweithredu Strategaeth Ddigidol newydd i gefnogi mwy o ddefnydd o dechnoleg a lleihau gofod swyddfa a'r angen i deithio. |

# Sut mae Prosiect Sero yn gweithio

Mae'r adran flaenorol yn nodi'r heriau y mae angen i ni eu hwynebu ac yn rhoi cyd-destun i'n sefyllfa bresennol wrth ymateb i'r argyfwng.

Mae integreiddio yn allweddol i lwyddiant **Prosiect Sero**. Mae'r Cyngor yn darparu ystod eang o wasanaethau a bydd gan bob un o'r rhain rôl i'w chwarae yn y prosiect.

## Ein Cynlluniau, Ein Polisïau a'n Strategaethau

Mae gan y Cyngor hefyd ystod o gynlluniau, polisïau a strategaethau ar waith sy'n manylu ar sut y caiff gwasanaethau penodol eu datblygu a'u darparu. Wrth nodi ein hymrwymiadau a'n heriau fel rhan o **Brosiect Sero** mae angen i ni fyfyrio ar y cynnydd a wnaed eisoes a sicrhau bod dull cyson ac uchelgeisiol o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ym mhob rhan o wahanol gynlluniau a strategaethau niferus y Cyngor. Nodir isod rai o strategaethau, polisïau a chynlluniau allweddol y Cyngor a fydd â rôl hollbwysig yn ein gwaith i addasu i effaith newid yn yr hinsawdd a'i liniaru. Bydd y

cynlluniau a'r strategaethau hyn yn llywio'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu, ond byddant hefyd yn llywio ac yn dylanwadu ar ymddygiad a gweithredoedd pobl eraill.

- Cynllun Corfforaethol 2020-25 'Gweithio Gyda'n Gilydd at Ddyfodol Disgleiriach'
- Cynllun Cyflawni Blynyddol
- Strategaeth Adnoddau Dynol
- Strategaeth Adfer o Covid-19
- Ail-lunio Strategaethau a Rhaglenni
- Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol
- Cynllun Rheoli Carbon
- Strategaeth Ddigidol
- Strategaeth Cyfleoedd Masnachol a Chynhyrchu Incwm
- Polisi a Strategaeth Caffael
- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif
- Strategaeth Twf Economaidd (wrthi'n cael ei datblygu)
- Strategaeth Dai Leol
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLl) 2015-30
- Prosiectau Teithio Llesol
- Cynllun Datblygu Lleol 2011-26
- Canllawiau Cynllunio Atodol Perthnasol
- Strategaeth Seilwaith Gwyrdd (wrthi'n cael ei datblygu)
- Blaengynllun Bioamrywiaeth
- Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd
- Cynllun Rheoli Traethlin

## Ein Mewnwelediad

Os ydym am lwyddo yn yr her o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, yna mae'n hanfodol ein bod yn datblygu a rhannu arbenigedd ym mhob rhan o'r Cyngor. Darperir hyfforddiant i'r Aelodau a'r staff ynghylch materion penodol fel ymwybyddiaeth o'r newid yn yr hinsawdd yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth gyffredinol. Bydd y Cyngor yn gwahodd gweithwyr proffesiynol o'r Cyngor ei hun ac o sefydliadau partner i helpu i ddatblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o effaith negyddol bosibl ein gweithredoedd a sut gallwn wneud y newidiadau a'r cynnydd mwyaf cadarnhaol, yn ogystal â gweithio at fod yn garbon niwtral.

Byddwn hefyd yn defnyddio modiwlau ar-lein i hyfforddi ac yn rhannu adnoddau gydag asiantaethau eraill. Bydd neges glir mai cyfrifoldeb yr holl aelodau etholedig a staff yw gwneud y newidiadau er mwyn bod yn garbon niwtral erbyn 2030, a gallwn i gyd wneud gwahaniaeth a bod yn rhan o **Brosiect Sero.**

Byddwn yn ymgysylltu ag arbenigedd allanol i weithio gyda ni i lywio sut y gallwn ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth a'n dealltwriaeth ymhellach i lywio ein penderfyniadau ac adrodd ar gynnydd. Bydd hyn

yn cynnwys defnyddio'r Canllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-Net a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021 a gweithio gyda phartneriaid fel Cyfoeth Naturiol Cymru sydd wedi gwneud gwaith sylweddol yn y maes hwn.

Byddwn yn ymgysylltu ag arbenigedd allanol i weithio gyda ni i lywio sut y gallwn ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth a'n dealltwriaeth ymhellach i lywio ein penderfyniadau ac adrodd ar gynnydd. Bydd hyn yn gwella ein hatebolrwydd ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i lywio ein cynnydd ac amlygu lle mae angen gweithredu a'n blaenoriaethau ar gyfer cyflawni ein targed o fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon gyda'r gymuned a phartneriaid fel rhan o'n gwaith i sicrhau newid ar draws y Fro gan unigolion, cymunedau, busnesau a'r sector cyhoeddus.

## Ein Ffocws ar Ymgysylltu

Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddwyd llythyr agored gan Arweinydd y Cyngor yn esbonio bod gwaith i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd wedi parhau er gwaethaf y pandemig ac yn cydnabod bod angen i ni wneud mwy o hyd. Roedd y llythyr hwn yn galw am ddechrau sgwrs ar y newid yn yr hinsawdd a bydd y Cyngor yn cadw'r sgwrs hon i fynd. Mae'n bwysig ein bod fel Cyngor yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd a'n partneriaid am yr hyn rydym yn ei wneud, ac mae'n bwysig ein bod yn parhau i wrando ar wahanol syniadau ac ar yr hyn sydd gan ein trigolion a rhanddeiliaid eraill i'w ddweud.

Mae ein gwaith hyd yma wedi'i lywio gan ymgysylltu â phartneriaid, staff ym mhob rhan o'r Cyngor, trafodaethau â phobl ifanc fel rhan o waith gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r sgwrs gymunedol a ddechreuwyd gennym ym mis Rhagfyr 2020. Rydym yn cydnabod bod angen i ni weithredu nawr er mwyn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol erbyn 2030 ond mae angen i ni hefyd siarad, rhannu, gwrando a dysgu ac annog a chefnogi ein gilydd. Mae'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y cynllun drafft wedi amlygu pwysigrwydd rhannu gwybodaeth a gwrando ar farn y cyhoedd a phartneriaid, clywed eu pryderon ac archwilio sut y gallwn gydweithio.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n hysgolion a'n gwasanaeth ieuenctid i wrando ar bryderon plant a phobl ifanc, i rannu ein syniadau ar gyfer newid ac i wrando ar eu syniadau hwy. Byddwn hefyd yn siarad ag aelodau hŷn o'r gymuned a dysgu o'u gwybodaeth a'u profiad. Rydym am weithio gyda'n partneriaid gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned a'r sector gwirfoddol a dod â'r holl wybodaeth at ei gilydd i lywio ein gweithredoedd a'n hymddygiad.

Mae angen i ni adeiladu momentwm y tu ôl i'r gwaith hwn a chreu fforymau ar gyfer trafod a herio'n adeiladol. Ein Bro ni yw hon ac mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i ddiogelu ei dyfodol ac i adael etifeddiaeth y gallwn ymfalchïo ynddi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Etifeddiaeth ar gyfer y genhedlaeth nesaf a thu hwnt.

## Trefniadau Llywodraethiant

Mae ein gwaith ar y newid yn yr hinsawdd yn rhan annatod o raglen drawsnewid y Cyngor ac yn un o'r prif sbardunau. Bydd angen newid ar draws y Cyngor i ateb heriau **Prosiect Sero**. Bydd gwaith y Cyngor i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn cael ei gynnwys mewn ystod eang o adroddiadau gan

gynnwys adroddiadau perfformiad chwarterol, Adroddiadau Blynyddol y Cyngor a'r BGC ac adroddiadau rheolaidd i'r Cabinet a’r Pwyllgor Craffu.

Bydd y gwaith o ddatblygu a chyflawni gwaith i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Ail-lunio'r Cyngor sy'n cynnwys aelodau'r Cabinet a'r Uwch Dîm Arwain. Bydd gan Fwrdd Mewnwelediad y Cyngor rôl hollbwysig hefyd o ran llunio gwaith, gwneud cysylltiadau a nodi cyfleoedd fel rhan o **Brosiect Sero**. Yn ogystal, bydd staff technegol yn cymryd rhan mewn gwaith nid yn unig ar lefel weithredol, ond i ddod â'u harbenigedd proffesiynol i sesiynau arloesi. Bydd arbenigedd a her allanol yn parhau i gael eu cyflwyno i helpu i ddatblygu prosiectau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac ysgogi dadl a thrafodaeth i drawsnewid y ffordd rydym yn gweithio.

Bydd cyfleoedd gwahanol i staff barhau i ymgysylltu â'r gwaith hwn beth bynnag fo'u rôl. Byddwn yn parhau i gynnal sesiynau dysgu ar wahanol themâu, a bydd y rhain yn cyd-fynd ag ymgysylltu ehangach â'r cyhoedd a thrafodaethau gyda gwahanol grwpiau o randdeiliaid. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid drwy'r BGC i gyflawni'r ymrwymiadau yn Siarter Argyfwng Hinsawdd y BGC ac i gefnogi ein gilydd ac annog cynnydd yn ôl yr angen.

Bydd gan y Pwyllgor Craffu ar Berfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a’r Pwyllgorau Craffu ar yr Amgylchedd ac Adfywio rôl o ran craffu ar gynnydd wrth ymateb i'r heriau i fynd i'r afael â’r newid yn yr hinsawdd a chyflawni **Prosiect Sero**.

Mae gan y Cyngor nifer o ddangosyddion perfformiad a fydd yn helpu i bennu cynnydd wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd a bod yn garbon niwtral erbyn 2030. Adroddir ar y rhain bob chwarter fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor. Byddwn yn adeiladu ar y dangosyddion hyn i ddatblygu cyfres o ddangosyddion a threfniadau cadarn i ddangos cynnydd a'r gwahaniaeth rydym yn ei wneud ac i lywio adolygiadau rheolaidd o **Brosiect Sero**.

Credwn mai yr allwedd i lwyddiant yw ymgorffori gwaith **Prosiect Sero** ym mhob rhan o’n gwasanaethau a’i wneud yn ymdrech y Cyngor cyfan yn ogystal ag yn ymdrech y gymuned gyfan. Mae **Prosiect Sero** yn rhan annatod o'n rhaglen drawsnewid. Rhaid cynnwys, cydweithredu ac integreiddio os ydym am gyflawni ein nodau, ac mae atal a golwg hirdymor yn angenrheidiol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wehyddu i'n trefniadau rheoli busnes integredig sy’n cael eu goruchwylio gan ein Bwrdd Mewnwelediad, gan sicrhau bod arweinyddiaeth gref ac atebolrwydd a'n bod yn gweithio gyda'n gilydd ym mhob rhan o’r Cyngor i wneud y newidiadau ar gyfer dyfodol disgleiriach.

## Atodiad A - Yr Achos dros Newid

Mae ystod eang o dystiolaeth sy'n cefnogi'r angen am newid a'r angen dybryd i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd.

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn cael ei achosi gan gynnydd mewn nwyon tŷ gwydr yn atmosffer y Ddaear sy'n arwain at gynnydd yn nhymheredd y Ddaear. Wrth i dymheredd byd-eang barhau i godi mae hyn yn golygu y bydd amrywiaeth o sgil effeithiau niweidiol gan gynnwys tywydd poeth iawn, glawogydd mwy dwys, bydd y cefnforoedd yn parhau i gynhesu ac asideiddio a bydd lefelau'r môr yn codi. Hefyd, mae effeithiau difrifol a di-droi'n-ôl ar bobl ac ecosystemau yn fwy tebygol, ac yn fyd-eang, bydd mwy o brinder bwyd a dŵr a mwy o lifogydd arfordirol.

Carbon deuocsid yw'r nwy tŷ gwydr mwyaf cyffredin ac mae'n cyfrif am tua dwy ran o dair o nwyon tŷ gwydr. Mae'n deillio'n bennaf o losgi tanwyddau ffosil. Mae angen i ni leihau ein hallyriadau carbon er mwyn gostwng y tymheredd.

- Bydd cynnydd o 1.5°C yn golygu bydd dros 70% o riffiau cwrel yn marw, ond bydd cynnydd o 2°C yn golygu bydd dros 99% ohonynt yn cael eu colli.
- Bydd pryfed, sy'n hanfodol ar gyfer peillio cnydau a phlanhigion, yn debygol o golli hanner eu cynefin gyda chynnydd o 1.5°C, ond mae hyn bron ddwywaith yn fwy tebygol gyda chynnydd o 2°C.
- Gallai'r Arctig golli iâ môr yn gyfan gwbl yn yr haf unwaith y ganrif gyda chynnydd o 1.5°C, ond gallai hyn ddigwydd unwaith y degawd gyda chynnydd o 2°C.
- Ar hyn o bryd mae dros 6 miliwn o bobl yn byw mewn ardaloedd arfordirol fydd yn cael eu heffeithio gan gynnydd yn lefel y môr yn sgil cynnydd o 1.5°C, a bydd cynnydd o 2°C yn effeithio ar 10 miliwn o bobl erbyn diwedd y ganrif hon.
- Bydd lefel y môr yn codi 100 centimetr yn uwch yn sgil cynnydd o 2°C nag o 1.5°C.
- Mae amlder a dwyster sychder, stormydd a digwyddiadau tywydd eithafol yn fwyfwy tebygol yn sgil cynnydd o 1.5°C

**Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd**

Mae'n bwysig ein bod yn ystyried sut y gall y penderfyniadau a'r camau yr ydym i gyd yn eu cymryd wneud gwahaniaeth. Mae'r camau a gymerwn yn awr i newid ein hymddygiad a lleihau ein hallyriadau carbon mewn ymdrech ar y cyd yn fyd-eang yn cyfrif. Cododd lefel y môr yn fyd-eang gan dua 8 modfedd (20 centimetr) yn y ganrif ddiwethaf, sef tua hanner uchder pin bowlio. Mae'r gyfradd yn ystod y ddau ddegawd diwethaf bron ddwywaith y ganrif ddiwethaf ac yn cyflymu ychydig bob blwyddyn. Mae pecynnu plastig defnydd untro yn dod i 40% o'r galw am blastig, a bu cynnydd mewn cynhyrchiant plastig o 2 filiwn tunnell yn y 1950au i 380 miliwn tunnell erbyn 2015. Erbyn diwedd 2015, roedd 8.3 biliwn tunnell o blastig wedi'i gynhyrchu – mae dwy ran o dair ohonynt wedi'u rhyddhau i'r amgylchedd ac yn aros yno.

## Beth mae hyn yn ei olygu i'r DU a Chymru?

Mae Rhagolygon yr Hinsawdd y DU (UKCP) yn darparu'r asesiad diweddaraf o sut y gallai hinsawdd y DU newid yn y dyfodol. Mae UKCP18 yn nodi'r tywydd y gall y DU ei ddisgwyl mewn hinsawdd sy’n cynhesu. Gellir crynhoi'r effeithiau fel gaeafau gwlypach, hafau cynhesach, mwy o stormydd a thywydd eithafol a lefelau'r môr yn codi.

Yn ôl y Swyddfa Dywydd, 2019 oedd y 12fed flwyddyn gynhesaf i'r DU ers dechrau cofnodi ym 1884 ac mae pob un o’r 10 mlynedd gynhesaf yn y DU ers i gofnodion ddechrau ym 1884 wedi bod ers 2002.

Mae crynodeb yr Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd ar gyfer Cymru yn nodi meysydd risg allweddol lle mae angen cymryd mwy o gamau: -

- Risgiau i seilwaith (o bob ffynhonnell llifogydd).
- Risgiau i gyflenwadau dŵr cyhoeddus o sychder a llifoedd isel.
- Rhai arferion rheoli tir yn gwaethygu'r perygl o lifogydd.
- Risgiau i ecosystemau a busnesau amaethyddol yn sgil newidiadau mewn amodau hinsoddol.

Nododd asesiad risg hinsawdd Pwyllgor y DU ar gyfer Newid Hinsawdd y tueddiadau a'r patrymau allweddol sydd wedi'u harsylwi yn y DU a Chymru, lle gellir dadansoddi'r data:

- Yn debyg i duedd y DU yn gyffredinol, mae'r tymheredd cyfartalog dros dir wedi cynhesu yn y degawdau diwethaf yng Nghymru.
- Ar lefel y DU mae uchafswm ac isafswm tymheredd dyddiol wedi cynyddu ychydig dros 1°C ers y 1950au.
- Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi'u cofnodi yn nifer y dyddiau lle ceir rhew aer yng Nghymru.
- Nid yw'r glawiad blynyddol cyfartalog dros Gymru wedi newid yn sylweddol hyd yma.
- Fodd bynnag, mae rhywfaint o dystiolaeth bod glaw tymhorol trwm hefyd wedi cynyddu ledled y DU.
- Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y diwrnodau y mae angen i bobl wresogi eu cartrefi, tra bod nifer y diwrnodau y mae angen oeri cartrefi wedi aros yr un fath.
- Mae tueddiadau lefel y môr yn anodd eu dadansoddi dros Gymru. Ond yr amcangyfrif gorau ar raddfa'r DU ar gyfer cynnydd yn lefel y môr ers 1901 yw 1.4 ± 0.2 mm y flwyddyn.

**Ffyniant i Bawb - Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd 2019**
**Llywodraeth Cymru**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yn 2020 cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyfres o saith Datganiad Ardal yn cwmpasu Cymru gyfan. Mae pob Datganiad Ardal yn amlinellu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ardal benodol honno, yr hyn y gallwn i gyd ei wneud i ymateb i'r heriau hynny, a sut y gallwn reoli ein hadnoddau naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r datganiadau hyn yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar y materion mewn gwahanol ardaloedd rhanbarthol ac mae Bro Morgannwg wedi'i chynnwys yn Natganiad Ardal Canol De Cymru ynghyd â Phen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr a Rhondda Cynon Taf.

[Datganiad Ardal Canol De Cymru](Datganiad Ardal Canol De Cymru)


Rhennir y datganiad yn nifer o themâu a ***Adeiladu ecosystemau gwydn*** a ***Chysylltu pobl â natur*** yw conglfeini'r Datganiad Ardal, sy'n sail i ddull cyfan CNC o fynd i'r afael â'r heriau yr ydym ni, a'n hamgylchedd naturiol, yn eu hwynebu erbyn hyn.

Mae CNC hefyd wedi cyhoeddi'r Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR2020) sy'n canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol o fewn wyth ecosystem eang. Mae'r adroddiad yn adeiladu ar nifer o asesiadau Cymreig, y DU a byd-eang o statws a thueddiadau adnoddau naturiol.  Mae'n cynnig dull trawsnewidiol gan ddefnyddio'r elfennau ecosystem, economaidd a chymdeithasol fel dulliau o ailgynllunio ein cymdeithas a'n heconomi.  Nodir tri maes newid trawsnewidiol, sef ein systemau bwyd, ynni a thrafnidiaeth.

[Adroddiad Ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru 2020]

## Newid Hinsawdd ar draws y Fro

Mae’r newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar fywydau yn y Fro ac mae'n bwysig bod unigolion, busnesau a'r sector cyhoeddus i gyd yn chwarae rhan mewn lleihau ein hallyriadau a newid ymddygiad.   Mae gan Fro Morgannwg gefn gwlad ac ardaloedd arfordirol hardd ond mae gennym hefyd dipyn o ddiwydiant, amaethyddiaeth a maes awyr.  Mae'r graff isod yn dangos Allyriadau CO2 Bro Morgannwg fel y'u mesurir gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.





Mae anghydraddoldebau ar draws y Fro hefyd gyda nifer o ardaloedd yn ymddangos ymhlith y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC).

Mae cysylltiad rhwng newid yn yr hinsawdd a thlodi gan fod newid yn yr hinsawdd yn effeithio'n anghymesur ar bobl dlawd mewn cymunedau incwm isel.  Canfu Pedwerydd Adroddiad Asesu Hinsawdd Cenedlaethol yr IPCC fod unigolion a chymunedau incwm isel yn fwy agored i beryglon a llygredd amgylcheddol a'u bod yn cael amser caletach i wella o effeithiau newid yn yr hinsawdd.


Mae'r mapiau isod yn dangos yr ardaloedd o'r Fro sydd fwyaf mewn perygl o lifogydd a hefyd effaith llygredd aer. Gellir cael rhagor o wybodaeth am MALIC yn https://www.valepsb.wales/cy/Our-Evidence/Our-Evidence.aspx

Fel y mesurwyd gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019, gan ddefnyddio data o Asesiad Perygl Llifogydd CNC, mesurir bod nifer o AGEHIau yn Nwyrain Bro Morgannwg mewn perygl uchel o lifogydd; yn benodol, mae perygl uwch o lifogydd yn AGEHI Dinas Powys ac AGEHI Cadog 5.

Aelwydydd sydd Mewn Perygl o Lifogydd fesul AGEHI



Lefelau Ansawdd Aer fesul AGEHI



Fel y mesurwyd gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019, mae data Ansawdd Aer fesul AGEHI yn dangos crynodiadau uwch o ddeunydd gronynnol Nitrogen Deuocsid (N02) yn Nwyrain Bro Morgannwg, gydag AGEHI Cornerswell 2 yn cofnodi'r cyfraddau uchaf o lygrydd NO2. Gwelir lefelau uwch hefyd yn Nwyrain y Barri, ac mewn AGEHIau sydd wedi'u categorieiddio'n fwy difreintiedig yn ôl MALIC. Gellir priodoli cyfraddau uwch o lygrydd aer yn yr ardaloedd hyn i ddwyseddau poblogaeth uwch, swm y traffig ac agosrwydd at ddiwydiant trwm.

### *Allyriadau carbon y Cyngor*

Rydym yn lleihau ein hallyriadau o'n hadeiladau, gan gynnwys ysgolion a hefyd o oleuadau stryd a theithio.

Mae'r Cyngor wedi bod wrthi'n rheoli ei ddefnydd o ynni ers peth amser a rhwng 2010 a 2018 adroddodd ei allyriadau drwy'r cynllun Ymrwymiad Lleihau Carbon. Cyflwynwyd y cynllun hwn gan y llywodraeth ac roedd yn ofynnol i gwmnïau a chyrff cyhoeddus, yr oedd eu hallyriadau dros y trothwy ar gyfer cymryd rhan, i gasglu a mesur allyriadau CO2 o'r rhan fwyaf o'i gyflenwadau nwy a thrydan.

Yn ystod y cyfnod hwn, gostyngodd yr allyriadau carbon a gynhyrchwyd o 17,700 tunnell CO2 i 7,880 tunnell CO2. Mae rhywfaint o'r gostyngiad yn deillio o "wyrddio'r grid". Wrth i fwy o ynni adnewyddadwy gael ei gysylltu â'r grid mae'r ffactor allyriadau a ddefnyddir i adrodd am CO2 yn gwella. Fodd bynnag, lleihaodd y Cyngor hefyd y KWH o ynni (Nwy a Thrydan) a ddefnyddiodd drwy'r cyfnod hwn o 29.3 Miliwn KWH i 14.8 Miliwn KWH.

Mae'r ffigurau ar gyfer 2019/20 yn dangos gostyngiad parhaus i 7,539 tunnell o CO2. Bydd 2020/21 yn flwyddyn annormal oherwydd y defnydd is o fewn adeiladau, ond ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae'r Cyngor yn rhagweld gostyngiad o 10% mewn allyriadau.

### *Ysgolion*

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella effeithlonrwydd ynni yn adeiladau ein hysgolion. Rydym wedi gwella sgôr Tystysgrif Ynni i'w Harddangos ysgolion ers 2012-13 ac erbyn hyn nid oes unrhyw ysgolion â sgôr islaw D. Mae'r ganran yn gradd D hefyd wedi gostwng o 47% (yn 2012-13) i 12% (yn 2019-20). Mae mwy o ysgolion hefyd wedi symud i radd C (67% yn 2019-20 o gymharu â 44% yn 2012-13) a B (21% yn 2019-20 o gymharu â 6% yn 2012-13). Ein nod yw parhau i wella effeithlonrwydd ynni adeiladau ein hysgolion a lleihau ein hallyriadau carbon. Mae prosiect gweithgor datgarboneiddio wedi'i sefydlu i leihau'r defnydd o ynni yn ein hystâd addysg gan 5% dros y 5 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn arwain at arbedion carbon blynyddol o tua 207,553.68 kg$C0_2$e, sy'n cyfateb i £60,900.

### *Tai Cyngor*

Gwnaed cynnydd sylweddol hefyd o ran gwella effeithlonrwydd ynni ein stoc dai. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cynnal asesiad tŷ cyfan i ddeall beth yw'r ateb mwyaf cost-effeithiol ar gyfer pob eiddo unigol; edrych ar ddeunydd, gwasanaethau ac ynni adnewyddadwy er mwyn cyflawni'r perfformiad uchaf, tra'n rheoli tlodi tanwydd. Ar hyn o bryd mae cynllun busnes y Cyfrif Refeniw Tai yn nodi tua £103m dros y 30 mlynedd nesaf tuag at ymateb yn uniongyrchol i ddatgarboneiddio ac mae rhaglenni adnewyddu eraill hefyd yn ceisio sicrhau lefelau uchel o effeithlonrwydd ynni.

Mae ein holl gynlluniau datblygu tai wedi'u cynllunio a'u hadeiladu i gydymffurfio â rheoliadau adeiladu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni a Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru (safonau diwygiedig yn cael eu datblygu ar hyn o bryd). Ein hamcan oedd ceisio gwelliant o 10% uwchlaw gofynion sylfaenol Rhan L y Rheoliadau Adeiladu cyfredol, sy'n rheoli allyriadau carbon a chadwraeth tanwydd a phŵer.

## Atodiad B – Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Teithio Llesol | Cerdded a beicio (gan gynnwys defnyddio sgwteri symudedd) ar gyfer teithiau pob dydd. |
| Pwmp Gwres Ffynhonnell Aer | Mae Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer (PGFfA) yn amsugno gwres o'r awyr agored i ddarparu gwres a dŵr poeth. Mae angen trydan arnynt i redeg ond |

| | |
|---|---|
| | oherwydd eu bod yn echdynnu gwres adnewyddadwy o'r amgylchedd. Mae’r gwres a gynhyrchir yn fwy na’r trydan a ddefnyddir. |
| Big Fresh Catering Company | Mae'r Big Fresh Catering Company yn eiddo i'r Cyngor yn gyfan gwbl ac mae'n darparu gwasanaethau bwyd ar gyfer ysgolion, busnesau a digwyddiadau. |
| Bioamrywiaeth | Mae bioamrywiaeth yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio'r amrywiaeth enfawr o fywyd ar y Ddaear. Mae bioamrywiaeth yn cyfeirio at bob peth byw, gan gynnwys planhigion, bacteria, anifeiliaid a phobl. |
| Mannau Glas | Yn cynnwys afonydd, cyrsiau dŵr, llynnoedd a moroedd. |
| Allyriadau Carbon | Y carbon sy’n cael ei ryddhau i'r atmosffer. |
| Carbon Sero-Net | Mae Sero-Net yn cyfeirio at y cydbwysedd rhwng swm y carbon a gynhyrchir a'r swm a dynnir o'r atmosffer. Rydym yn cyrraedd sero-net pan nad yw'r swm a ychwanegwn yn fwy na'r swm a gymerwyd i ffwrdd. |
| Prifddinas-Ranbarth Caerdydd | Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn rhaglen y cytunwyd arni yn 2016 rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a deg awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru i symbylu twf economaidd sylweddol yn y rhanbarth trwy fuddsoddi, uwchsgilio a gwella cysylltedd corfforol a digidol. |
| Ynni Adnewyddadwy Cymunedol | Ynni adnewyddadwy lleol sydd ym mherchnogaeth leol (trydan a/neu wres). |
| Datgarboneiddio | Term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses o leihau swm y carbon a ddefnyddir ar gyfer y gweithgaredd neu newid i fath amgen sy’n garbon isel. |
| Gwydnwch Eco | *Y diffiniad cyffredinol o wydnwch eco (ecolegol) yw’r gallu gan ecosystemau i wrthsefyll newid adeileddol parhaol a chynnal swyddogaeth yr ecosystem.* |
| Bro Bwyd | Mae Bwyd y Fro yn bartneriaeth o unigolion, grwpiau cymunedol, sefydliadau a busnesau ymroddedig sy'n gweithio gyda'i gilydd i greu system fwyd ffyniannus, iach a chynaliadwy yn y Fro. |
| Swyddi Gwyrdd | Mae swyddi gwyrdd yn seiliedig ar reoli adnoddau adnewyddadwy neu leihau'r effaith ar yr amgylchedd. |
| Seilwaith Gwyrdd | Mannau gwyrdd, pridd, llystyfiant a dŵr sy'n darparu'r gwasanaethau ecosystem sy'n gwneud lleoedd yn well i fyw ynddynt. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, coed strydoedd, toeau a waliau gwyrdd, mannau chwarae naturiol, gerddi bywyd gwyllt/natur, coridorau peillwyr, gwaith tirlunio, systemau draenio ac atebion rheoli ansawdd aer. |
| Man Gwyrdd | Ardaloedd fel coedwigoedd, parciau, dolydd, gerddi cymunedol a mynwentydd. |
| Pwmp Gwres o'r Ddaear | Mae system pwmp gwres o’r ddaear yn harneisio gwres naturiol o dan ddaear trwy bwmpio dŵr drwyddi mewn pibellau. Yna mae'r pwmp gwres yn cynyddu'r tymheredd, a defnyddir y gwres i ddarparu gwres cartref neu ddŵr poeth. |
| Nwyon Tŷ Gwydr | Unrhyw nwy sy’n gallu amsugno pelydriad isgoch (egni gwres net) a allyrrir o wyneb y Ddaear a'i ail-gylchu yn ôl i wyneb y Ddaear, gan gyfrannu felly at yr effaith tŷ gwydr. Carbon deuocsid, methana dŵr anwedd yw'r nwyon tŷ gwydr pwysicaf. |

| | |
|---|---|
| Panel Rhynglywodraethol ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) | Yr IPCC yw corff y Cenhedloedd Unedig ar gyfer asesu'r wyddoniaeth sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r IPCC yn paratoi Adroddiadau Asesu cynhwysfawr am gyflwr gwybodaeth wyddonol, dechnegol ac economaidd-gymdeithasol am y newid yn yr hinsawdd, ei effeithiau a'i risgiau yn y dyfodol, ac opsiynau ar gyfer lleihau'r gyfradd y mae newid yn yr hinsawdd yn digwydd. |
| Cynllun Ynni Ardal Leol | Mae Cynllunio Ynni Ardal Leol (CYAL) yn ddull system gyfan sy'n helpu i lywio a chefnogi awdurdodau lleol, gweithredwyr rhwydwaith ynni, busnesau a chymunedau i gynllunio dull trosglwyddo carbon isel, cost-effeithiol sy'n seiliedig ar ddata ar gyfer y system ynni leol. |
| Rhaglen Ôl-osod wedi'i Hoptimeiddio | Rhaglen gan yr adran Tai sy'n defnyddio cyllid grant Llywodraeth Cymru i ehangu gwybodaeth a gwella gallu contractwyr lleol o ran gwasanaethau gwresogi gwyrdd, i ddatgarboneiddio'r farchnad gwresogi domestig a darparu sgôr darged TPY o A i gartrefi cyngor cynaliadwy. |
| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Ein Bro - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Bro Morgannwg yn dod ag uwch-arweinwyr ynghyd o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar draws Bro Morgannwg i weithio mewn partneriaeth er mwyn dyfodol gwell. |
| Ynni adnewyddadwy | Mae ynni adnewyddadwy, y cyfeirir ato'n aml fel ynni glân, yn dod o ffynonellau neu brosesau naturiol e.e. gwynt/haul. |
| Canolfan Adfer Adnoddau | Canolfannau ar gyfer gwastraff y cartref gan gynnwys deunydd i'w ailgylchu. Ceir gwybodaeth am ganolfannau yn y Fro yma. |
| Craffu | Mae craffu'n rhan allweddol o strwythur gwleidyddol y Cyngor ac mae'n chwarae rôl bwysig wrth sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu darparu'n effeithiol, yn effeithlon ac er budd trigolion Bro Morgannwg a'r bobl sy'n ymweld â hi. Mae Pwyllgorau Craffu'n cynnwys Cynghorwyr nad ydynt ar y Cabinet. Mae'r Pwyllgorau hyn yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau a wna'r Cabinet a chynnig dull effeithiol o ran herio i sicrhau bod barn ac anghenion y gymuned yn cael eu hystyried. |
| Adran 106: | Mae Adran 106 Deddf Cynllun Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu i awdurdod cynllunio lleol ymrwymo i gytundeb sy'n rhwymo'n gyfreithiol i sicrhau rhwymedigaeth cynllunio gyda thirfeddiannwr fel rhan o roi caniatâd cynllunio. Ceir rhagor o wybodaeth am gytundebau Adran 106 yn y Fro yma. |
| Draeniad Trefol Cynaliadwy | Mae systemau draenio trefol cynaliadwy (SDCau) yn systemausydd wedi'u dylunio i reoli'r broses o ddraenio dŵr wyneb yn yr amgylchedd trefol. |
| Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig (UNEP) | **Mae Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig (UNEP) yn hyrwyddo gweithredu dimensiwn amgylcheddol datblygu cynaliadwy o fewn system y Cenhedloedd Unedig mewn modd cydlynol ac yn eiriolwr dros yr amgylchedd byd-eang.** |
| Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) | Er mwyn sicrhau bod pob cartref yn cyrraedd lefel dderbyniol, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio dogfen: Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Mae hon yn safon ar gyfer ansawdd a chyflwr eiddo sy'n rhestru nifer o dargedau y bydd angen i bob cartref eu cyflawni. |

| | |
|---|---|
| Sefydliad Meteorolegol y Byd (WMO) | Y WMO yw asiantaeth arbenigol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer meteoroleg (tywydd a hinsawdd), hydroleg weithredol a gwyddorau geoffisegol cysylltiedig. |
| Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif | Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn fuddsoddiad strategol hirdymor mewn adeiladau ysgolion ledled Cymru. Mae'n brosiect unigryw ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), awdurdodau lleol, colegau ac awdurdodau esgobaethol. |